# TARO'R TARGED

## Canllawiau Athro

Peilot 2026

atebol

# Beth yw Taro'r Targed?

Mae **Taro'r Targed** yn gyfres gynhwysfawr o adnoddau Cymraeg sydd wedi'u cynllunio i gefnogi uwchraddio sgiliau llythrennedd drwy ddulliau uniongyrchol a gweithredol. Mae'r adnodd yn addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg Mamiaith, Cymraeg fel Iaith Ychwanegol a dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r pwyslais ar feistroli'r **sgiliau sylfaenol** ar gyfer **Darllen, Ysgrifennu a Chyfathrebu**.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Adnoddau rhyngweithiol digidol gydag adnoddau print ar gyfer dysgwr unigol, gwaith pâr a gwaith grŵp.
- Trysorfa o weithgareddau ymarferol y gall yr hyfforddwr eu haddasu ar gyfer gofynion unigol a phenodol pob dysgwr.
- Gweithgareddau ar gyfer addysgu dan arweiniad neu weithio'n annibynnol.

Mae'r adnodd wedi'i rannu'n **dri** phrif faes sef:

**Sgiliau Sylfaenol - Darllen**

**Sgiliau Sylfaenol - Gramadeg**

**Sgiliau Sylfaenol - Ysgrifennu**

Mae'r adnodd yn gosod llwybrau addysgu a dysgu clir fydd yn sicrhau dilyniant o sgiliau sylfaenol (yr wyddor, ffoneg, geirfa) i sgiliau mwy cymhleth (treiglo, patrymau sillafu, ffurfiau ysgrifennu).

© 2026 Atebol

Mae **Taro'r Targed** yn cyd-fynd â'r **Cwricwlwm i Gymru**, gan feithrin:

**Cyfathrebwyr hyderus**

**Ymateb i ofynion dysgwyr uchelgeisiol**

**Meddwl beirniadol**

**Annibyniaeth ieithyddol**

Mae'r dull yn canolbwyntio ar dargedu'r elfennau hynny sydd angen sylw ar gyfer dysgwr unigol. Bydd y tasgau dechreuol yn mesur os ydy' dysgwr wedi meistroli'r sgil honno ai peidio.

Os bydd y dysgwr yn dangos sgôr uchel bydd hynny'n cadarnhau ei fod wedi meistroli'r sgil hwnnw. Felly, bydd yn symud ymlaen i weithgaredd newydd. Os ar y llaw arall, nad ydy'r dysgwr yn cyrraedd y gofynion disgwyliedig yna bydd y dysgwr yn symud ymlaen i gyflawni mwy o weithgareddau tebyg hyd nes y bydd yn llwyddo.

© 2026 Atebol

# Ffocws y Cyfnod Peilot

Bydd y **peilot cyntaf o Taro'r Targed** yn canolbwyntio'n benodol ar gyflwyno gweithgareddau ym meysydd **Treiglo** a **Sillafu** o fewn yr adran **Sgiliau Sylfaenol - Gramadeg**.

Mae'r adnoddau ar gyfer y peilot wedi eu dewis ar gyfer dysgwyr sy'n eu blynyddoedd olaf yn yr ysgol gynradd a blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol uwchradd. Y **Cyfnod Pontio** felly ydy ffocws yr adnodd hwn yn ystod y cyfnod peilot.

Dewiswyd treiglo a sillafu gan eu bod yn gallu profi yn heriol i nifer sylweddol o ddysgwyr.

Dyma gyfle i weld pa sgiliau sydd wedi'u meistroli eisoes a pha sgiliau sydd angen eu gwella, wrth i'r dysgwr gwblhau ei gyfnod/ei chyfnod yn yr ysgol gynradd a throsglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Bydd y wybodaeth hon hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer yr hyfforddwyr hynny er mwyn gweld pa sgiliau ieithyddol sydd wedi'u meistroli a pha sgiliau sydd angen sylw pellach yn y sector uwchradd.

Sgiliau llytrennedd sydd, o'u meistroli, yn effeithio'n uniongyrchol ar ddymuniad a gallu pob dysgwr i:

- ddelio'n fwy hyderus o ran darllen gwahanol fathau o destun;
- bod ag agwedd mwy cadarnhaol tuag at ddarllen ac i fwynhau darllen;
- cyfathrebu'n llafar gyda mwy o hyder;
- ysgrifennu testun gyda chywirdeb;
- delio â darllen, ysgrifennu a siarad mewn amrywiol feysydd dysgu a phrofiad  o fewn y Cwricwlwm i Gymru;
- ddewis astudio eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd. Mae sawl dysgwr yn dewis peidio â parhau i astudio eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gan nad ydyn nhw'n teimlo'n ddigon hyderus o ran eu gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad am y pynciau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg;
- gwella sgiliau ieithyddol a chodi safonau darllen, ysgrifennu a siarad.

© 2026 Atebol

Bydd yr adborth a dderbynnir o'r peilot yn gyfrwng i fesur effeithiolrwydd yr adnodd o ran **darparu gwaelodlin a monitro cynnydd pob unigolyn** o'r waelodlin honno.

Y nod yw creu darpariaeth unigryw sy'n **gosod y llifolau ar yr unigolyn a chreu rhaglen sy'n ymateb i'w gofynion penodol**.

Bydd yr adborth o'r peilot yn cynnig arweiniad o ran addasrwydd y gweithgareddau peilot yn ogystal â chynnig arweiniad ar ddyluniad a chynnwys yr adnodd yn ei gyfanrwydd.

# Treiglo
# Pwrpas yr Uned

Cynnig help llaw i wella sgiliau sylfaenol llythrennedd. Mae'r gweithgareddau treiglo yn rhan allweddol o'r adran Gramadeg ac yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth systematig o dreigladau'r Gymraeg.

Nod yr uned yw:

- gwella dealltwriaeth o'r treiglad meddal a'r treiglad trwynol;
- dangos **sut** a **pham** mae treiglad yn digwydd;
- symleiddio rheolau cymhleth yn gamau bach, clir;
- cefnogi creu brawddegau mwy cymhleth ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- meithrin a grymuso hyder ieithyddol.

Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i fod yn weledol, yn ailadroddus ac yn amrywiol, gan sicrhau bod dysgwyr yn gweld patrymau dro ar ôl tro mewn cyd-destun ystyrlon.

© 2026 Atebol

# Trefn y Gweithgareddau

Mae'r gweithgareddau'n dilyn dilyniant clir:

| 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|
| **Treiglo 1** | **Treiglo 2 - 3** | **Treiglo 4 - 6** |
| Cyflwyniad cyffredinol i'r sgil ieithyddol. | Treiglo ar ôl 'fy' (labelu a chysylltu). | Treiglo ar ôl 'i' ac 'o'. |

Mae'r dilyniant hwn yn cefnogi cynnydd graddol - o adnabod patrymau i gymhwyso'n annibynnol.

© 2026 Atebol

# Strategaethau Addysgu

## 1. Modelu Clir

Dangos enghreifftiau fel:

pen > fy mhen
cath > fy nghath

- Defnyddio cod lliw (e.e. gair gwreiddiol (glas), gyda'r treiglad (coch).
- Trafod pam mae'r newid yn cymryd lle.

## 2. Dull Gweledol

Mae pwyslais ar weithgareddau rhyngweithiol gan eu bod yn:

- dangos yn weledol beth ydy'r newid i'r llythrennau sy'n digwydd o ganlyniad i'r treigliad;
- cryfhau cof gweledol;
- lleihau'r pwyslais ar gofio rheolau;
- dysgu trwy brofiad personol ac ymarferol.

## 3. Esbonio'r Rheolau Cam wrth Gam

Er enghraifft, treiglo ar ôl '**fy**':

- Edrych ar lythyren gyntaf y gair sy'n treiglo.
- Cofio beth sy'n digwydd i'r llythyren honno.
- Ysgrifennu'r ffurf newydd gyda'r treigliad.

© 2026 Atebol

# Sillafu

## Pwrpas yr Uned

Mae'r gweithgareddau sillafu yn canolbwyntio ar:

- gryfhau sgiliau ffoneg;
- deall patrymau llythrennau (er enghraifft, **eo, ea, oe, ew**);
- sicrhau gwell dealltwriaeth o'r lluosog (**au**);
- ehangu geirfa;
- cefnogi cywirdeb ysgrifenedig.

Mae'r dull yn gyfuniad o weithgareddau rhyngweithiol amrywiol ynghyd â pharatoi brawddegau, gan wneud rheolau iaith yn ddealladwy.

© 2026 Atebol

# Trefn y Gweithgareddau

**Gweithgaredd 1**
**Cysylltu gair â llun**
Cryfhau cysylltiad sain - gair

**Gweithgaredd 2**
**Defnyddio gair mewn brawddeg**
Cymhwyso mewn cyd-destun

**Gweithgaredd 3 a 4**
**Lliwio patrymau penodol**
Meithin ymwybyddiaeth weledol

**Gweithgaredd 5, 6 a 7**
Ffocws ar gyfuniadau cymhleth a lluosog

Mae’r dilyniant yn symud o adnabod i gymhwyso’n annibynnol.

© 2026 Atebol

# Strategaethau Addysgu

## 1. Cysylltu Ffoneg a Sillafu

- Dysgu drwy brofiad uniongyrchol personol.
- Helpu'r dysgwr i ddeall a dysgu drwy weld.
- Cryfhau'r cof gweledol.
- Lleihau'r pwyslais ar gofio rheolau.

## 2. Patrymau Cymhleth

Mae cyfuniadau fel '**eo**' ac '**ea**' yn heriol.

Argymhellir:
- Creu rhestr o eiriau tebyg.
- Cymharu geiriau sy'n edrych yn debyg ond yn wahanol eu sain.
- Ymarfer gyda brawddegau llawn.

© 2026 Atebol

# Crynodeb

Mae meistroli elfennau **Treiglo** a **Sillafu** yn ganolog i wella sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg. Fe ddylai hynny yn ei dro arwain at fagu hyder cynyddol mewn darllen, ysgrifennu a siarad.

Mae'r adnodd yn:

- ceisio darparu gwaelodlin fel y gellir mesur cynnydd pob unigolyn yn ei erbyn;
- defnyddio dull gweithredol ac ailadroddus hyd nes y bydd y sgil wedi'i feistroli;
- cefnogi cynnydd graddol;
- meithrin a chyfoethogi hyder mewn darllen, ysgrifennu a siarad.

Drwy gyfrwng y peilot hwn, bydd cyfle i fesur a gwerthuso effeithlonrwydd y gweithgareddau fel arf i fagu hyder a gwella cywirdeb dysgwyr yn eu defnydd o iaith..

Bydd yr adborth a'r adroddiad yn sail werthfawr iawn gyda'r gwaith o baratoi bron i 600 o weithgareddau o fewn y ddarpariaeth derfynol.

© 2026 Atebol

# Cynnwys y Peilot

## Treiglo

**Treiglo ar ôl 'fy'**

**Treiglo ar ôl 'i' ac 'o'**

## Sillafu

| | |
|---|---|
| **oe** | **eo/ea** |
| **eu** | **au** |
| **ai** | **ch** |
| **ae** | **ff** |
| **ei** | **ll** |
| **aw** | **rh** |
| **wy** | **Diwedd gyda 'dd'** |
| **ew** | **Diwedd gyda 'th'** |

© 2026 Atebol

# Ar gyfer pwy?

- Mae'r adnoddau'n addas ar gyfer dysgwyr sy'n astudio'r **Gymraeg** fel **Mamiaith**, **Cymraeg fel Iaith Ychwanegol** yn ogystal â dysgwyr sydd ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol**.
- Unrhyw ddysgwr sydd angen help llaw mewn meistroli eu sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg. Mae'n adnodd defnyddiol ar gyfer unrhyw ddysgwr beth bynnag fo eu hoedran neu eu gallu.
- Dysgwyr sy'n pontio rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd. Mae'n addas felly ar gyfer dysgwyr yn eu blynyddoedd olaf yn yr ysgol Gynradd a'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol Uwchradd
- Dysgwyr sydd angen gwella eu sgiliau treiglo a sillafu.

# Y gweithgareddau

Mae'r adnoddau ar gyfer y peilot yn cynnwys:

**Gweithgareddau rhyngweithiol digidol**

**Ffeiliau Word**

Gall yr hyfforddwr eu newid a'u teilwra i gyd-fynd â gofynion penodol y dysgwr neu neu gellir eu haddasu i adlewyrchu diddordebau dysgwr neu i adlewyrchu gofynion lleol.

**Ffeiliau pdf**

Gellir eu lawrlwytho ar gyfer eu hargraffu.

© 2026 Atebol

# Sut mae defnyddio'r adnoddau?

Gall y gweithgaredd cyntaf ymhob adran gael ei ddefnyddio fel dull syml o ganfod os ydy'r dysgwr wedi meistroli'r sgil honno ai peidio. Gellir defnyddio'r gweithgaredd cyntaf fel **gwaelodlin** cyn symud ymlaen i wneud gweithgareddau pellach hyd nes y bydd y sgil honno wedi'i meistroli.

Mae'r gweithgareddau wedi'u graddio ar lefelau Sylfaenol, Canolradd ac Uwch yn ogystal â nodi'n fras Camau Cynnydd 1, 2 a 3.

# Sut mae mesur cynnydd?

Dechreuwch gyda'r gweithgaredd cyntaf cyn symud ymlaen i'r gweithgareddau dilynol. Bydd angen i chi gofnodi sawl tro y mae'r dysgwr wedi ei gymryd er mwyn cael pob ateb yn gywir ar gyfer y gweithgaredd hwnnw.

Wrth symud ymlaen drwy'r gweithgareddau dilynol fe fydd hi'n bosib gweld faint o gynnydd (ai peidio) mae'r dysgwr wedi'i wneud. Bydd angen cwblhau gweithgareddau ychwanegol hyd nes y bydd mesur o gynnydd wedi'i sicrhau.

Ar wahân i ddadansoddiad ansoddol o fesur cynnydd gellir hefyd mesur cynnydd drwy, er enghraifft, fesur sawl tro mae'r dysgwr wedi ei gymryd i gwblhau gweithgaredd yn llwyddiannus neu drwy gymharu faint o amser mae hi wedi'i gymryd i ateb pob gweithgaredd unigol drwy ddefnyddio mesurydd amser.

Bydd y ddarpariaeth yn cynnig cyfle i weld a chlywed y geiriau a'r testun gan gyfuno'r **gweledol** a'r **clywedol**.

© 2026 Atebol